RHWYDWAITH DIOGELU GIG CYMRU

GIG CYMRU NHS WALES

# Adroddiad Blynyddol 2024-25



GIG CYMRU | NHS WALES
DIOGELU RHWYDWAITH | SAFEGUARDING NETWORK

# Cynnwys


**Cyflwyniad y Cadeirydd** 4

**Ynglŷn â'r Rhwydwaith Cenedlaethol** 5

**Ynglŷn â'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol** 5

**Gwybodaeth a Rhannu Gwybodaeth** 6

Dull cenedlaethol o ymdrin ag Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant 6

Arweiniad ynghylch oedolion a phlant sydd heb eu danfon ac ynghylch ymweliadau lle na chafwyd mynediad 7

**Arweinyddiaeth y Rhwydwaith** 8

Taflen ffeithiau am Egwyddorion Diogelwch Rhywiol 8

Y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu – gweithredu ac adolygu 9

Arweiniad ynghylch sesiynau ymgynghori o bell 10

Templed ar gyfer Strategaeth Ddiogelu 11

**Llais y Plentyn/Oedolyn sy'n Wynebu Risg** 12

Arweiniad ynghylch beichiogrwydd ymhlith plant dan 13 oed 12

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid 13

Plant sy'n Derbyn Gofal – ymateb i'r holiadur 14










**Asesu a Chwilfrydedd Proffesiynol** **15**

Anffurfio organau cenhedlu benywod – arweiniad wedi'i ddiweddaru 15

Adnodd archwilio ar gyfer yr Ymholiad Arferol i Gam-drin Domestig 16

**Dysgu ym maes Diogelu** **17**

Sesiwn sbotolau am chwilfrydedd proffesiynol 17

Digwyddiad sbotolau am ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg 17

Digwyddiad Goruchwyliaeth Adferol ar gyfer Meddygon a Enwir a Meddygon Dynodedig 18

Adolygu gwaith dysgu a rennir am ddiogelu 19

**Ymarfer Rhanbarthol Arloesol** **20**

Gwella profiad plant o golposgopi 21

Adnabod pryderon am ddiogelu yn gynnar 22

Gwelliannau i ansawdd Gwasanaethau Ambiwlans Cymru 23

Hyfforddiant amlasiantaeth ynghylch diogelu 24

Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig ym maes Iechyd 25

Tîm Atal Trais 26

Mesurau Gwella Ansawdd 27

Arweiniad ynghylch mannau geni 28

Gwella Ansawdd ar gyfer achosion o hunanesgeulustod 29

Hyfforddiant ynghylch chwilfrydedd proffesiynol 30

Prosiect y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd 31

Ymgyrch Codwch y Ffôn 32

Ap Rheoli Diogelu yn mynd yn fyw 32

**Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol** **33**











Awdur: Shamala Govindasamy
Ebost: NSS@wales.nhs.uk
Mehefin 2025

# Cyflwyniad y Cadeirydd

## Croeso i Adroddiad Blynyddol 2024–2025 Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru.



Fel Cadeirydd, mae'n fraint cael myfyrio ynghylch blwyddyn effeithiol arall o weithgarwch diogelu ar draws GIG Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ymdrech, arloesedd ac ymroddiad aelodau ein cymuned ddiogelu ar y cyd i hybu iechyd, diogelwch a hawliau'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Rhwydwaith wedi sicrhau cynnydd ystyrlon ar draws ystod o faterion diogelu cymhleth. O arweiniad wedi'i ddiweddaru ynghylch Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant, i safonau cenedlaethol ar gyfer apwyntiadau a fethwyd, i ddatblygu llwybrau ar gyfer rheoli beichiogrwydd ymhlith plant dan 13 oed, mae ein gwaith yn dal i ymateb i anghenion ein poblogaethau a'n gweithlu, sy'n esblygu.

Mae cyflwyno Templed ar gyfer Strategaeth Ddiogelu yn cynorthwyo holl sefydliadau GIG Cymru i gyd-fynd â gweledigaeth gyffredin, ac yn ei gwneud yn bosibl ar yr un pryd iddynt gyflawni'n lleol mewn modd sydd wedi'i deilwra. Mae'r adnodd hwn yn hybu cysondeb, yn cryfhau sicrwydd ac yn atgyfnerthu atebolrwydd ar y cyd am ymarfer diogelu.

Rydym wedi parhau i flaenoriaethu gwaith dysgu a datblygiad proffesiynol. Mae ein Sesiynau Sbotolau cenedlaethol wedi dod â gwaith diogelu'n fyw drwy ddysgu pwerus sy'n seiliedig ar senarios a thrwy ddealltwriaeth arbenigol. Ffocws un sesiwn oedd chwilfrydedd proffesiynol, a oedd yn herio ymarferwyr i fyfyrio ynghylch eu meddylfryd, eu rhagdybiaethau a'u penderfyniadau. Bu sesiwn arall yn canolbwyntio ar oedolion sy'n wynebu risg, gan ddefnyddio themâu sy'n codi'n aml o adolygiadau diogelu a chan dynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod llais yr oedolyn yn ganolog bob amser i'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'r digwyddiadau hyn wedi cryfhau ymarfer ac wedi ysbrydoli gwaith dysgu myfyriol ar draws systemau iechyd a gofal.

Rydym hefyd wedi cymryd camau bwriadol i ofalu am y sawl sy'n arwain diogelu yng Nghymru. Drwy ein darpariaeth o ran Goruchwyliaeth Adferol, rydym wedi hybu lles a chynaliadwyedd arweinwyr diogelu, gan greu mannau diogel iddynt fyfyrio, cysylltu ag eraill ac adnewyddu—sy'n hanfodol i gynnal y gwytnwch emosiynol sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith cymhleth hwn.

Er gwaetha'r holl bethau sydd wedi'u cyflawni, rydym yn cydnabod bod llawer i'w wneud o hyd. Mae gormod o bobl agored i niwed yng Nghymru yn dal i brofi canlyniadau gwael. Mae cynnydd parhaus yn dibynnu ar ymgorfforri dysgu, atal ac ymyrryd yn gynnar fel egwyddorion craidd i'n hymarfer, gan sicrhau hefyd bod diogelu'n parhau yn gyfrifoldeb i bawb.

Rydym yn croesawu ac yn cefnogi'r Adolygiad Cryfhau Diogelu ym maes Iechyd a gomisiynwyd gan y Prif Swyddog Nyrsio, sy'n gyfle pwysig i wella gwaith sicrhau ansawdd, llywodraethiant, gwaith dysgu a chysondeb cenedlaethol. Bydd sefydlu Grŵp Cyflawni a ffrydiau gwaith pwrpasol yn arwain at ddealltwriaeth fwy trylwyr o'r dirwedd o ran diogelu, ac yn llywio'r cyfeiriad y byddwn ni fel system yn mynd iddo.

Wrth i ni edrych ymlaen at 2025–2026, rydym wedi ymrwymo o hyd i weithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru i ysgogi gwelliannau sy'n uchelgeisiol, yn gynhwysol ac wedi'u gwreiddio yn yr hyn sydd bwysicaf i bobl Cymru.

Mae gan bob dinesydd hawl i fyw heb brofi ofn, camdriniaeth, esgeulustod, sefyllfaoedd lle camfanteisir arnynt a niwed. Gyda'n gilydd, rydym wedi ymrwymo i wireddu hynny.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn teimlo bod yr adroddiad hwn yn addysgiadol ac yn ysbrydoledig, a hoffwn eich annog i'w rannu yn eang ar draws eich sefydliad a'ch rhwydweithiau.

**Louise Mann**
**Cadeirydd, Rhwydwaith Diogelu GIG Cymru**

# Ynglŷn â'r Rhwydwaith Cenedlaethol

**Caiff 'y Rhwydwaith' ei arwain yn broffesiynol gan Wasanaeth Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru). Mae'n bont hanfodol rhwng strategaethau a threfniadau ar lefel leol a datblygiadau o ran polisi ar lefel genedlaethol er mwyn cynorthwyo Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru i gyflawni eu cyfrifoldebau i ddiogelu pobl.**

Mae'r Rhwydwaith a'i is-grwpiau yn darparu amgylchedd cymuned ymarfer ac yn hwyluso cydweithio, gwella sgiliau, sganio'r gorwel, rhannu heriau ac arfer gorau, datrys problemau ac arloesi. Elfen greiddiol o'r Rhwydwaith yw gwerthuso effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau ac ymyriadau diogelu, yn ogystal â lleihau'r graddau y mae ymarfer yn amrywio ar draws y GIG.

Caiff y Rhwydwaith ei arwain gan Louise Mann o'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol a'i gydgadeirio gan Fiona Davies o Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

## Is-grwpiau

Mae is-grwpiau'r Rhwydwaith yn gymuned ymarfer ac yn hwyluso gweithgarwch gwella diogelu ar y cyd. Mae chwe is-grŵp yn ymdrin â'r meysydd canlynol:

1. Hyfforddiant a Dysgu
2. Y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu
3. Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
4. Y Ddeddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
5. Plant sy'n Derbyn Gofal
6. Meddygon Arweiniol Cymru ar gyfer Diogelu

## Gwaith amlasiantaeth

Mae partneriaid y Rhwydwaith y tu allan i GIG Cymru yn cynnwys y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Swyddfeydd y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Comisiynydd Plant, Uned Atal Trais Cymru ac asiantaethau allweddol eraill. Mae'r dull hwn o weithio ar draws system yn hwyluso rhannu arfer da a rhaeadru gwybodaeth er mwyn hyrwyddo diogelu effeithiol ar draws pob sefydliad.

**Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol**
Diogelu GIG ar gyfer Cymru Ddiogelach

**National Safeguarding Service**
NHS Safeguarding for a Safer Wales

## Ynglŷn â'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol

**Mae'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn darparu arweinyddiaeth gredadwy i'r system, gan ysbrydoli eraill a meithrin agweddau at ddiogelu ar draws system y GIG, sy'n seiliedig ar wella ansawdd. Mae'r gwasanaeth yn cydlynu ac yn rheoli'r gwaith a gyflawnir gan y Rhwydwaith.**

Mae'r tîm yn cynnwys gweithwyr proffesiynol medrus sy'n darparu arbenigedd strategol, ymarfer wedi'i safoni, cyfleoedd i wella sgiliau, ac arweiniad arbenigol i gydweithwyr ar draws GIG Cymru, sefydliadau amlasiantaeth a Llywodraeth Cymru.

# Gwybodaeth a Rhannu Gwybodaeth

## Dull cenedlaethol o ymdrin ag Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant

### Y cefndir

Mae Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant yn asesiad arbenigol a gynhelir yn rhan o'r ymchwiliad amlasiantaeth statudol wrth ymateb i bryderon am y posibilrwydd y gallai plentyn fod yn cael ei gam-drin neu'i esgeuluso. Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar adnabod arwyddion o niwed ac ar gasglu tystiolaeth ar gyfer adroddiad a rennir ag asiantaethau partner sy'n cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a'r heddlu.

Yn rhan o'r archwiliad y mae hanes meddygol trylwyr sy'n cynnwys cwestiynau am ddatblygiad y plentyn, ei iechyd, ei amgylchiadau cymdeithasol, ei hanes teuluol, ac archwiliad corfforol manwl.

### Safon genedlaethol

Argymhellodd Archwiliad y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant o Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant mai elfen hanfodol o'r broses feddygol ar gyfer amddiffyn plant oedd cael Gweithdrefn Weithredu Safonol hygyrch wedi'i chyhoeddi ar gyfer Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant.

### Arweiniad


Er mwyn cyflawni'r gofyniad hwn a lleihau'r graddau y mae archwiliadau'n amrywio ar lefel genedlaethol, a gwella ansawdd penderfyniadau clinigol sy'n ymwneud â niwed a chamdriniaeth gorfforol, mae'r Rhwydwaith wedi llunio arweiniad cynhwysfawr ar gyfer pob aelod o staff meddygol sy'n cynnal asesiadau.

### Amcanion

Bydd yr arweiniad yn sicrhau bod unrhyw Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant yn cael eu cynnal yn brydlon, ac yn sicrhau hefyd eu bod yn canolbwyntio ar y plentyn a'u bod o'r safon uchaf. Dyma'r amcanion:

- Esbonio'n glir y gweithdrefnau ar gyfer trefnu a chwblhau Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant.
- Sicrhau bod Ymarferwyr Iechyd yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant sy'n wynebu risg.
- Sicrhau bod unrhyw Ymarferwyr Iechyd yn sylweddoli bod diogelu ac amddiffyn plant yn gyfrifoldeb i bawb.
- Sicrhau bod ymarfer yn cyd-fynd â'r gofynion deddfwriaethol a disgwyliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r arweiniad cysylltiedig ynghylch diogelu.

Mae'r arweiniad yn cynnwys llifsiart atgyfeirio er mwyn hybu eglurder, ac mae Ffurflen Asesu yn cyd-fynd ag ef. Yn ogystal, mae taflen i blant a theuluoedd wedi'i datblygu er mwyn esbonio beth i'w ddisgwyl yn ystod Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant, a fydd yn sail i gydsyniad ac yn sicrhau bod y cyfathrebu gorau posibl yn digwydd. At hynny, mae fideo gwybodaeth i gleifion wrthi'n cael ei gynhyrchu.



Child Protection Medical
Information for Parents and Carers

This information leaflet is designed to inform parents/ carers what a Child Protection Medical entails and why it is necessary.

**Why does my child need a Child Protection Medical?**
Your child has been referred for this assessment because a professional, such as a Teacher or Doctor, has noticed something about your child that needs further assessment. This may be an injury, a mark on the skin, bruising or something your child has said.
It is not always possible to know what has caused a mark to a child. It is therefore important appropriate assessments, examinations and investigations are undertaken. Social Workers and Police are involved in deciding if a Child Protection Medical is required, in line with Safeguarding Procedures and the Childrens Act.
A Child Protection Medical is not an accusation that you have done anything wrong but a structured way to investigate any important medical conditions or injuries that may be affecting your child's health.

You will be asked to give your consent for this medical examination. You should be aware the information from this assessment will be shared with other professionals including social services and the police. If you decline consent but the doctor believes the Child Protection Medical is in your child's best interests further discussion will take place with Social Services or the Police.

**What happens at the Child Protection Medical?**
A specialist Children's Doctor (Paediatrician) will take a full medical, family, social and developmental history including your child's general health, their day-to-day life and the circumstances surrounding the referral. They may need to speak to other people involved in caring for your child. It is common practice to give children the opportunity to talk to the examining doctor independently.
Your child will have a full examination looking for any medical problems as well as any injuries or marks. If marks are identified these will be measured by the doctor and may be photographed by a medical photographer, with your consent, to be added to the medical records.

Tests and checks that may be required

**General examination**
Your child will have a top to toe examination with any injuries, marks or bruises measured and recorded in their notes. Photographs may be taken

**Blood tests**
All ages of children may need to have blood tests to look for conditions making your child more prone to bruising or bleeding as well as looking at bone and general health. Numbing cream may be used.

**Eye test**
If your child is under 2 the back of their eye may be examined by an eye specialist. They may use drops to dilate the pupil. This will wear off after a few hours

**Skeletal survey**
This is a painless procedure lasting about half an hour involving a series of x-rays of bones looking for breaks or disease. Until the second skeletal 11-14 days later any safeguarding precautions will stay in place.

**CT head scan**
Some infants who are not yet walking as well as some older children may need this painless investigation, especially if there are concerns about a head injury. Further imaging may be needed to investigate other injuries or marks. More information on imaging is available on request



# Arweiniad ynghylch oedolion a phlant sydd heb eu danfon ac ynghylch ymweliadau lle na chafwyd mynediad

## Y cefndir

Mae apwyntiadau gofal iechyd a fethwyd ac ymweliadau lle na chafwyd mynediad yn themâu sy'n codi yn aml mewn Adolygiadau Ymarfer Plant, Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig ar draws Cymru a'r DU. Gallai'r cyfleoedd hyn a gollwyd fod yn adlewyrchu esgeulustod neu risg o niwed, yn enwedig os byddant yn digwydd fwy nag unwaith a heb esboniad. Mae'n hanfodol, felly, bod patrymau sy'n ymwneud â'r apwyntiadau hyn yn cael eu hadnabod er mwyn hwyluso'r penderfyniadau amlasiantaeth gorau posibl am ddiogelu.

## Arweiniad

Er mwyn ymateb i hyn, mae'r Rhwydwaith wedi datblygu arweiniad i staff GIG Cymru a phartneriaid diogelu perthnasol. Mae'r arweiniad yn amlinellu egwyddorion allweddol a disgwyliadau er mwyn sicrhau ymateb diogelu rhagweithiol a chydlynus i'r sefyllfaoedd canlynol:


- Sefyllfa lle na chaiff plentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg ei ddanfon i apwyntiad (wyneb yn wyneb neu rithiol) a drefnwyd, neu
- Sefyllfa lle na all gweithwyr proffesiynol gael mynediad yn ystod ymweliad a gynlluniwyd â'r cartref.

## Gweithredu ar sail y darlun cyflawn

I gynorthwyo ymarferwyr i ddeall y darlun cyflawn, mae Rhestr Wirio Adnabod Risg wedi'i datblygu er mwyn asesu risg pan na fydd plant, pobl ifanc neu oedolion sy'n wynebu risg yn cael eu danfon i apwyntiadau, neu pan na ellir cael mynediad yn ystod ymweliadau a drefnwyd â'r cartref neu ymweliadau rhithiol. Mae'r rhestr wirio i'w defnyddio ochr yn ochr â barn broffesiynol a gweithdrefnau amlasiantaeth.

## Canlyniad

Yn y dyfodol, bydd yr arweiniad yn sicrhau na fydd apwyntiadau iechyd a fethwyd ac anallu i gael mynediad yn ystod ymweliadau â'r cartref yn cael eu hystyried ar wahân i'w gilydd neu'n cael eu diystyru fel pethau sy'n digwydd fel mater o drefn. Drwy ddefnyddio'r arweiniad, gall GIG Cymru gryfhau ei ddiwylliant diogelu a sicrhau na chaiff unrhyw blentyn, person ifanc neu oedolyn sy'n wynebu risg ei anwybyddu.



# Arweinyddiaeth y Rhwydwaith

## Taflen ffeithiau am Egwyddorion Diogelwch Rhywiol

### Y cyd-destun

Yn dilyn adroddiadau niferus, sylw gan y cyfryngau a gwaith ar ddata, mae wedi dod i'r amlwg bod diogelwch rhywiol yng nghyswllt cleifion, cleientiaid, ymwelwyr, gweithlu ac ystadau'r GIG yn faes â blaenoriaeth o safbwynt darparu mwy o sicrwydd a gwelliant.

Er mwyn ymateb i hynny, mae Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ddiogelwch Rhywiol wrthi'n cael ei ddatblygu dan arweiniad gweithlu'r GIG i hybu diogelwch rhywiol o fewn GIG Cymru. Bydd y Cynllun yn ymdrin â pholisi cenedlaethol ar ddiogelwch rhywiol, arweiniad, trefniadau adrodd ac ystyriaethau'n ymwneud â hyfforddiant.

### Taflen ffeithiau

I gefnogi'r gwaith cenedlaethol hwn, mae'r Rhwydwaith wedi datblygu taflen ffeithiau am Egwyddorion Diogelwch Rhywiol, sy'n cefnogi'r nod hwn: *Rhaid i bob amgylchedd gofal iechyd fod yn ddiogel ac yn gefnogol i bawb sy'n gweithio, yn dysgu ac yn hyfforddi yn y GIG yng Nghymru ac i bawb sy'n ymweld ag ef.*

Mae'r daflen ffeithiau yn ymdrin â chwe egwyddor allweddol sy'n codi ymwybyddiaeth ac yn dangos ymrwymiad i ddiogelwch rhywiol yn yr amgylchedd gofal iechyd – p'un a yw pobl yn gweithio ynddo neu'n ei ddefnyddio – fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn ddigon hyderus i sôn am broblemau ac yn teimlo bod rhywun yn eu cynorthwyo ac yn gwrando arnynt.




I hybu'r gwaith hwn, mae ffeithlun ar ffurf fideo wrthi'n cael ei ddatblygu er mwyn cynorthwyo sefydliadau GIG Cymru i ddosbarthu'r egwyddorion ar draws eu sefydliadau.


# Y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu: Gweithredu ac adolygu

**Adnodd hunanasesu yw'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu, sy'n hybu gwelliannau i ansawdd diogelu ar draws GIG Cymru.**

Mae'n cynnwys chwe maes sy'n sail i'r broses hunanasesu, a chaiff ei gwblhau bob blwyddyn gan bob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd yn rhan o system sicrwydd pob sefydliad.

- 1 | Arwain a Llywodraethu Effeithiol
- 2 | Gweithlu Hyderus & Cymwys
- 3 | Canolbwyntio ar unigolion
- 4 | Diwylliant Dysgu
- 5 | Partneriaethau Aml-asiantaeth
- 6 | Ymatebol a Hydwyth

Mae'r Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn defnyddio'r wybodaeth honno er mwyn darparu adroddiad sy'n nodi gwelliannau y bernir eu bod yn fanteisiol o safbwynt dull Cymru gyfan o weithredu. Ochr yn ochr â thrafodaeth Adolygiad Cymheiriaid y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu, nod y dadansoddiad a'r canfyddiadau yw llywio blaenoriaethau blaengynllun gwaith y Rhwydwaith.




## Cyfyngiadau

Er bod adnodd y Matrics Aeddfedrwydd Diogelu yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r portffolios diogelu deinamig a geir ar draws GIG Cymru, mae'r Rhwydwaith yn cydnabod bod cyfyngiadau'n perthyn i'r broses ddadansoddi ac adrodd. Nid yw'r wybodaeth thematig a gesglir yn gyfoes, felly nid oes canlyniadau amserol yn perthyn iddi er mwyn nodi blaenoriaethau cyfredol. Mae'r Adolygiad Cryfhau Diogelu ym maes Iechyd (Llywodraeth Cymru 2024) yn nodi'r angen i sicrhau ansawdd mewn amser real a'r angen am fesurau mwy cadarn ar gyfer diogelu.

Bydd y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn cyflawni'r gwaith hwn yn rhan o Gynllun Gwaith 2025/26 y Rhwydwaith, gan ddefnyddio grwpiau amlbroffesiwn a fydd yn cydweithio â'i gilydd i ddatblygu datganiadau ansawdd, metrigau diogelu allweddol a chyfres gysylltiedig o fesurau ansawdd.

### Yn y dyfodol

Bydd sefydliadau'n parhau i ddefnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu, gan gasglu eu gwybodaeth am sicrwydd, adrodd yn ei chylch a rhoi cyfrif amdani drwy eu prosesau llywodraethiant unigol. Bydd Adolygiad Cymheiriaid y Matrics yn parhau, a fydd yn ei gwneud yn bosibl cyfnewid arfer da gan hybu cydweithio a thynnu sylw at welliannau i ansawdd ar draws y system.

Bydd y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol yn cefnogi'r gwaith hwn, gan gadarnhau unrhyw themâu diogelu sy'n dod i'r amlwg ac adrodd ynghylch hynny wrth y Rhwydwaith.



# Arweiniad ynghylch sesiynau ymgynghori o bell

## Y cyd-destun

Yn ystod y pandemig COVID-19, gwelwyd cynnydd yn nifer y sesiynau ymgynghori a gâi eu cynnal o bell ym maes gofal iechyd. Yn wreiddiol, roedd y cynnydd hwnnw'n ymateb i brotocolau'n ymwneud ag ynysu a'r cyfnodau clo. Yn ddiweddar, fodd bynnag, mae sesiynau ymgynghori o bell yn cael eu defnyddio o hyd er mwyn rheoli amser clinigwyr yn effeithiol yn wyneb galw sy'n cynyddu.

Tynnodd ymarferwyr arbenigol GIG Cymru, sy'n gweithio ym maes gofal brys y tu allan i oriau gwaith arferol gan ddefnyddio sesiynau ymgynghori o bell, sylw at y diffyg hyfforddiant ynghylch diogelu sydd ar gael i ymateb i'r newid hwn yn eu dulliau ymarfer.

O ganlyniad, comisiynodd y Rhwydwaith waith er mwyn archwilio argaeledd ac addasrwydd hyfforddiant ynghylch diogelu, sy'n berthnasol i sesiynau ymgynghori o bell ym maes gofal iechyd yn GIG Cymru.

## Y gwaith

Daeth gweithgor a oedd yn cynnwys GIG Cymru, Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Perfformiad a Gwella GIG Cymru ynghyd i gwblhau'r tasgau canlynol:

1. Llunio trosolwg o'r deunyddiau cyfredol ar gyfer hyfforddiant ynghylch diogelu, sy'n berthnasol i sesiynau ymgynghori o bell.
2. Adnabod bylchau posibl.
3. Cynnal dadansoddiad a fyddai'n arwain at argymhellion i hybu'r gwaith o gyflwyno hyfforddiant ynghylch diogelu i ymarferwyr sy'n defnyddio sesiynau ymgynghori o bell.

## Yr argymhellion

Dyma'r argymhellion i hwyluso dull cyson o weithredu a hybu ymwybyddiaeth well o ystyriaethau diogelu a threfniadau gwarchod wrth gynnal sesiynau ymgynghori o bell:

- Y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol i ystyried cynnwys sesiynau sbotolau er mwyn dysgu am ddiogelu ac ymgynghori o bell.
- Is-grŵp Hyfforddiant a Dysgu'r Rhwydwaith i drafod y canfyddiadau a'r argymhellion.

## Y camau nesaf

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, bydd y Gwasanaeth Diogelu Cenedlaethol gyda chymorth ymarferwyr arbenigol ehangach y GIG yn cyflwyno sesiwn sbotolau a fydd yn darparu hyfforddiant ynghylch diogelu mewn sefyllfaoedd lle caiff sesiynau ymgynghori eu cynnal o bell.

Yn ogystal, mae'r Is-grŵp Hyfforddiant a Dysgu wedi cytuno i rannu deunyddiau dysgu ar draws Cymru, ac mae'n ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio canolfan i hwyluso hynny.

# Templed ar gyfer Strategaeth Ddiogelu




## Y cyd-destun a'r diben

Yn 2023–2024, cydnabuwyd bod angen mwy o gysondeb ar draws GIG Cymru o ran sut y caiff blaenoriaethau, cyfrifoldebau a chamau gweithredu sy'n ymwneud â diogelu eu mynegi a'u rhoi ar waith mewn Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd unigol.

Er mwyn ymateb i hynny, cafodd Templed ar gyfer Strategaeth Ddiogelu ei ddatblygu i ddarparu fframwaith clir a chyson sy'n cyd-fynd â'r Safonau Ansawdd Gofal Iechyd, a ategir gan weledigaeth a datganiad cyffredin ynghylch diogelu. Bwriad y fenter hon oedd cynorthwyo sefydliadau i fynegi eu hamcanion diogelu lleol, gan sicrhau cydymffurfiaeth a chydlyniant cenedlaethol ar yr un pryd.

## Ein gweledigaeth gyffredin

Mae diogelu'n golygu gwarchod iechyd, lles a hawliau dynol pobl a'u galluogi i fyw heb brofi ofn, niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'n rhan annatod o ddarparu gofal iechyd o safon. Rydym yn hybu ac yn gwarchod lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sy'n wynebu risg ar unrhyw adeg. Os gallai plant neu oedolion fod yn profi camdriniaeth neu esgeulustod, neu os ydynt yn wynebu risg o brofi camdriniaeth neu esgeulustod, rydym yn cymryd camau gweithredu priodol ac amserol ac yn sôn am bryderon.



## Ein datganiad diogelu

Mae'r GIG yng Nghymru wedi ymrwymo i ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg, ar draws sefydliadau gofal iechyd. Mae lles ein poblogaethau sy'n dod i gysylltiad â'n gwasanaethau iechyd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn hollbwysig ac mae cyfrifoldeb ar bob aelod o'n gweithlu i sicrhau bod dulliau ymarfer yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cydymffurfio â gofynion statudol. Drwy gydweithio'n agos â phartneriaid ac asiantaethau eraill, mae'n ofynnol bod pob un o wasanaethau'r GIG yn darparu gofal diogel ac effeithiol sydd o ansawdd da.

## Gweithgarwch ac effaith

Cafodd y templed ei ddylunio ar y cyd, gyda chyfraniadau gan arweinwyr diogelu ar draws holl sefydliadau GIG Cymru, sy'n sicrhau ei fod yn ymarferol, ei fod yn gymesur a bod modd ei addasu i gyd-destunau gwahanol wasanaethau. Mae'n darparu dull trefnus ond hyblyg sy'n galluogi Byrddau Iechyd i egluro eu blaenoriaethau diogelu, eu strwythurau llywodraethiant, cyfrifoldebau'r gweithlu, safonau hyfforddiant a systemau rhoi sicrwydd.

Drwy ymgorffori iaith a gweledigaeth gyffredin, mae'r templed ar gyfer strategaeth yn galluogi alinio, sicrwydd a chyd-atebolrwydd gwell ar draws y system. Mae'n cryfhau ein gallu i ddangos cydymffurfiaeth â dyletswyddau diogelu statudol, i ysgogi gwelliant parhaus, ac yn y pen draw i sicrhau bod pawb sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG yng Nghymru yn ddiogel ac yn cael eu gwarchod.

# Llais y Plentyn/Oedolyn sy'n Wynebu Risg

## Arweiniad ynghylch beichiogrwydd ymhlith plant dan 13 oed

### Y cyd-destun

Er bod beichiogrwydd ymhlith plant dan 13 oed yn rhywbeth prin, mae bob amser yn ganlyniad treisio statudol. Dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003, nid yw plant dan 13 oed yn gallu cydsynio i gael cyfathrach rywiol dreiddiol. Oherwydd oedran y plentyn beichiog, mae pob wythnos sy'n pasio yn golygu bod y risg i'r plentyn beichiog yn cynyddu. Felly, mae'n hollbwysig bod arweiniad clir sydd wedi'i drefnu ymlaen llaw ar waith er mwyn osgoi unrhyw oedi.

Yn dilyn achos cyfreithiol o bwys i Gymru, a ffocws penodol ar y gwersi a ddysgwyd ar gyfer gwasanaethau iechyd, roedd yn amlwg bod angen arweiniad cenedlaethol er mwyn sicrhau dulliau cyson a moesegol o reoli beichiogrwydd ymhlith plant dan 13 oed, gan sicrhau bod lles y plentyn beichiog yn cael blaenoriaeth mewn unrhyw benderfyniadau. Gall hynny fod yn fwyfwy cymhleth oherwydd bod llawer o'r plant hyn ar gynllun diogelu yn barod.

### Cydweithio

Bu'r Rhwydwaith yn cydlynu grŵp arbenigol amlddisgyblaethol ac amlasiantaeth o ymarferwyr a oedd yn cynnwys pobl o faes y gyfraith, bydwreigiaeth, pediatreg, iechyd rhywiol a gwasanaethau babanod newydd-anedig ac o Wasanaeth Cynghori ar Feichiogrwydd Prydain i weithio ar Ganllawiau Beichiogrwydd Cymru Gyfan ar gyfer Plant Dan 13 Oed.

Mae'r arweiniad yn hollbwysig, oherwydd ceir risg uwch o lawer o niwed i'r plentyn os bydd yna unrhyw oedi o ran deall pa ymyriadau sy'n ofynnol. Mae angen cymryd camau gweithredu'n brydlon, felly, gan ystyried a deall yn llawn yr agweddau cyfreithiol ar gydsynio a chyfrifoldeb rhieni.

### Canllawiau Beichiogrwydd Cymru Gyfan ar gyfer Plant Dan 13 Oed

Mae'r arweiniad yn esbonio gweithdrefn deg a chlir ar gyfer staff GIG Cymru sy'n rheoli beichiogrwydd plant dan 13 oed, er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau i'r plentyn.

Mae'r arweiniad yn ystyried teimladau'r plentyn ynghylch parhau â'r beichiogrwydd neu derfynu'r beichiogrwydd, ac yn ymgorffori ymarfer nad yw'n trawmateiddio'r plentyn o'r newydd ond sy'n hytrach yn blaenoriaethu trefniadau diogelu ar eu cyfer a gofal meddygol yn syth er mwyn atal niwed ymhellach. Ceir llwybrau manwl a chlir ar gyfer terfynu beichiogrwydd ar ôl gwahanol gyfnodau cario, parhau â'r beichiogrwydd a mabwysiadu, ac ymdrinnir â chymhlethdodau cydsynio a'r adegau pan fydd yn rhaid cael cyngor cyfreithiol pellach.

**Mae'r arweiniad yn cynnwys y canlynol:**

- Llifsiart sy'n egluro'r protocol ar gyfer adeg pan fydd plentyn dan 13 oed yn datgelu wrth aelod o staff y gallai fod yn feichiog
- Y ddyletswydd i roi gwybod i'r awdurdod lleol
- Rolau a chyfrifoldebau sy'n ymdrin â'r sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r heddlu
- Cyngor yn ystod ôl-ofal, sy'n cynnwys dulliau atal cenhedlu yn y dyfodol, cyfeirio'r plentyn at gymorth seicolegol therapiwtig, a gwasanaeth estynedig gan fydwraig ar ôl geni (os rhoddir genedigaeth i blentyn).

**Dylai'r arweiniad arwain maes o law at broses wedi'i symleiddio sy'n sicrhau bod y plentyn beichiog yn ganolog i bob penderfyniad ac sy'n lleihau trawma i'r plentyn, y teulu a'r holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r achosion heriol iawn hyn.**



# Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

## Y cyd-destun

Diben Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yw hybu a diogelu penderfyniadau o fewn fframwaith cyfreithiol i bawb sy'n 16 oed neu'n hŷn, nad oes ganddynt alluedd meddyliol efallai i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain am eu gofal a'u triniaeth.

Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn rhan o'r Ddeddf hon. Mae'r pum egwyddor allweddol yn gweithredu fel set o reolau i amddiffyn person sy'n cael gofal ac y mae ei ryddid wedi'i gyfyngu pan na fydd ganddo alluedd i wneud penderfyniadau, drwy wirio bod y penderfyniad a wneir yn briodol ac er ei les.

## Gweithgarwch

Mae Is-grŵp Deddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid y Rhwydwaith yn darparu fforwm ar gyfer cydweithio ar brosiectau cenedlaethol ac yn llais strategol ar ran GIG Cymru. Mae'r grŵp hefyd yn tynnu sylw at faterion y mae angen eu huwchgyfeirio i asiantaethau partner a Llywodraeth Cymru, er mwyn diogelu'r sawl nad oes ganddynt alluedd.

Er yr oedi o ran gweithredu Deddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) (2019), a'r newid i ddefnyddio Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid a chod ymarfer newydd, mae'r Rhwydwaith wedi bod yn brysur yn ystod y cyfnod diwethaf.

**Mae'r prif weithgareddau yn cynnwys y canlynol:**

- Llunio ffurflen atgyfeirio Cymru gyfan ar gyfer y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Diweddaru pecyn e-ddysgu lefel 1 a 2 GIG Cymru ynghylch y Ddeddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cynllunio gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer y posibilrwydd o gynnwys agweddau ar Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019 mewn prosesau cyfredol yng Nghymru
- Cydweithio â thimau'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid ym maes gwasanaethau cymdeithasol er mwyn ystyried sut y bydd cydweithio yn gweithio
- Ymgysylltu â Fforwm Strategol GIG Lloegr ynghylch y Ddeddf Galluedd Meddyliol/Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

### Yn y dyfodol

Mae'r cynlluniau ar gyfer 2025-26 yn cynnwys:

- Treialu ffurflen atgyfeirio Cymru gyfan
- Datblygu fframwaith hyfforddiant ynghylch y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid, sy'n gydnaws â'r dogfennau rhyng-golegol ar lefel 3/safonau cenedlaethol grŵp C ar gyfer hyfforddiant, gwaith dysgu a datblygiad ym maes diogelu
- Llunio matrics sicrwydd Cymru gyfan ar gyfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol a'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

# Plant sy'n Derbyn Gofal – ymateb i'r holiadur

**Mae plant sy'n derbyn gofal ymhlith y grwpiau o bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas.**

Yn aml, bydd plant sy'n dechrau derbyn gofal yn llai iach yn gorfforol ac yn feddyliol na'u cyfoedion, oherwydd eu profiadau andwyol yn gynharach mewn bywyd, sy'n golygu y gallai canlyniadau tymor hwy fod yn waeth iddynt hefyd. Ar hyn o bryd, mae dros 7,200 o blant yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru.

## Gwrando er newid

Yn rhan o'r angen a nodwyd i ddatblygu adborth ar sail profiad pobl ym maes diogelu, er mwyn llunio gwasanaethau a thriongli data, mae arolwg cenedlaethol wedi'i ddatblygu gyda rhanddeiliaid ac, yn hollbwysig, gyda phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal, gyda chymorth gan Voices From Care Cymru – sefydliad cenedlaethol sy'n cynnal hawliau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o dderbyn gofal.

## Datblygu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Bydd yr arolwg yn cael ei ddefnyddio i geisio adborth ynghylch yr asesiadau iechyd statudol o blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr. Y nod yw sefydlu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan ddefnyddio data amser real i hybu gwelliannau i'r gwasanaeth, sy'n cynnwys nodi beth sy'n bwysig i blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr a sicrhau bod barn plant a phobl ifanc agored i niwed yn rhan annatod o'r modd y caiff gwasanaeth ei ddarparu. Bydd yr arolwg yn caniatáu ymatebion wedi'u safoni ynghylch bodlonrwydd â'r modd y caiff y gwasanaeth ei ddarparu, a bydd yn nodi gwybodaeth am themâu a thueddiadau o ran lles, mynediad i wasanaethau a ffyrdd o wella ansawdd.

## Arolygon

Mae tri arolwg wedi'u dylunio ar gyfer cleientiaid – plant iau, pobl ifanc a gofalwyr. Mae'r cwestiynau yn canolbwyntio ar y gwerthoedd craidd sy'n cynnwys urddas, parch a diogelwch, ac yn canolbwyntio'n bwysicach na dim ar b'un a yw'r plant a'r bobl ifanc yn teimlo eu bod yn rhan o benderfyniadau a wneir ynghylch eu hiechyd, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn ddiogel, ac yn teimlo bod gwybodaeth wedi'i rhannu â nhw mewn fformat sy'n briodol i'w hoedran. Ceir blwch testun rhydd hefyd fel y gall y plentyn, y person ifanc neu'r gofalwr awgrymu gwelliannau i'r profiad o gael asesiad iechyd. Mae'r arolwg wedi'i greu gan ddefnyddio platfform CIVICA, ac mae'r arolygon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar hyn o bryd. Gallai datblygiadau yn y dyfodol gynnwys darparu'r arolygon mewn ieithoedd eraill, mewn fformat hawdd ei ddarllen ac mewn iaith arwyddion Prydain, a'r gobaith ryw ddydd yw y bydd modd i bob defnyddiwr gwasanaeth ateb y cwestiynau ar lafar a recordio eu hatebion.




## Y camau nesaf

Bydd unrhyw blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr yn cael cyfle i gwblhau'r arolwg drwy god QR, yn dilyn eu hasesiad iechyd statudol.

Bydd Byrddau Iechyd yn gyfrifol am gasglu a dadansoddi eu data eu hunain, ac adrodd yn ôl ynghylch dangosyddion allweddol i'r Grŵp Llywio ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, sef un o is-grwpiau'r Rhwydwaith. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl dadansoddi themâu ar lefel Byrddau Iechyd a chyflwyno datblygiadau penodol i wasanaethau lleol. Ar lefel genedlaethol, bydd yn ei gwneud yn bosibl nodi themâu cyffredin a materion i'w gwella, a mynd i'r afael â'r themâu a'r materion hynny.

Aeth yr arolwg yn fyw ym mis Ebrill 2025, ac adroddir ddiwedd eleni ynghylch y broses o ddadansoddi'r data a gafwyd ohono.



# Asesu a Chwilfrydedd Proffesiynol

## Anffurfio organau cenhedlu benywod – arweiniad wedi'i ddiweddaru

**Mae'r Rhwydwaith wedi diweddaru llwybr clinigol Cymru gyfan sy'n ymwneud ag anffurfio organau cenhedlu benywod, er mwyn hybu ymarfer proffesiynol ynghylch adnabod a rheoli achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod.**

Mae anffurfio organau cenhedlu benywod yn drosedd. Mae'n ffurf ar drais yn erbyn menywod a merched, ac yn achos merched mae'n gyfystyr â cham-drin plant (Gwasanaeth Erlyn y Goron yn y DU, 2024; Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003, Deddf Troseddau Difrifol 2015). Bydd anffurfio organau cenhedlu benywod yn digwydd pan gaiff camau bwriadol eu cymryd i addasu organau cenhedlu benyw neu'u torri i ffwrdd, am resymau nad ydynt yn rhai meddygol. Caiff anffurfio organau cenhedlu benywod ei alw hefyd yn enwaedu neu dorri benywod.

### I bwy y mae'r arweiniad?

Mae'n rhaid i weithwyr iechyd proffesiynol a reoleiddir yng Nghymru roi gwybod i'r heddlu am achosion y gwyddys amdanynt ymhlith merched dan 18 oed. Bydd cosbau am beidio â rhoi gwybod i'r heddlu yn cael eu pennu gan yr awdurdod rheoleiddio ar gyfer y gweithwyr proffesiynol perthnasol.

Mae'r arweiniad a ddiweddarwyd ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws GIG Cymru yn rhoi cyngor ynghylch sut mae ymateb yn briodol i bryderon am achosion o anffurfio organau cenhedlu benywod ac ynghylch y ddyletswydd sydd arnynt i roi gwybod i'r heddlu. Disgwylir i unrhyw weithwyr iechyd proffesiynol a reoleiddir ymgyfarwyddo â'r llwybr a ddiweddarwyd a'r adnoddau asesu [Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod – Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)]

Bydd defnyddio'r adnodd archwilio ar draws Cymru yn fodd i gael gwybodaeth werthfawr a fydd yn hwyluso mwy o ymwybyddiaeth broffesiynol, yn gwella'r graddau y glynir wrth y broses gywir, yn lleihau achosion o amrywio, ac yn cyfrannu i ganlyniadau gwell ar gyfer benywod a merched y mae eu horganau cenhedlu'n cael eu hanffurfio neu y gallai eu horganau cenhedlu gael eu hanffurfio.



# Adnodd archwilio ar gyfer yr Ymholiad Arferol i Gam-drin Domestig

## Y cyd-destun

Mae'r Ymholiad Arferol i Gam-drin Domestig yn golygu holi pob menyw feichiog ynghylch camdriniaeth, waeth a oes unrhyw ddangosyddion neu amheuon ynghylch camdriniaeth yn bodoli neu beidio. Mae ymchwil wedi dangos bod camdriniaeth ddomestig yn aml yn dechrau neu'n gwaethygu yn ystod beichiogrwydd. Mae datgelu camdriniaeth ddomestig yn gofyn am breifatrwydd, cyfrinachedd a dulliau holi sensitif gan staff nad ydynt yn barnu.

## Safonau gofynnol

Cafodd Safonau Gofynnol Cymru Gyfan ar gyfer Ymholiad Arferol i Gam-drin Domestig, Beichiogrwydd a'r Blynyddoedd Cynnar (2021) eu creu fel bod aelodau o staff GIG Cymru yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ynghylch yr ymholiad arferol drwy gydol beichiogrwydd a'r cyfnod ar ôl geni.

## Gweithgarwch anghyson

Yn dilyn ymarfer cwmpasu gan Is-grŵp Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol y Rhwydwaith, daeth yn amlwg nad oedd y Safonau Gofynnol, ac yn benodol Safon 2, yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws Cymru.

Yn ôl Safon 2, bydd pob menyw'n cael ei holi fel mater o drefn ynghylch camdriniaeth ddomestig ar bob cyfle yn ystod beichiogrwydd a'r blynyddoedd cynnar, mewn gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau gofal i fabanod newydd-anedig a gwasanaethau ymwelwyr iechyd.

Dangosodd tystiolaeth fod cofnodi at ddibenion sy'n ymwneud ag ansawdd a sicrwydd yn anghyson, a bod rhai'n defnyddio cofnodion papur ac eraill yn defnyddio systemau electronig a meysydd data gwahanol i'w gilydd, nad oeddent o reidrwydd yn dangos cydymffurfiaeth â'r safonau.

## Adnodd archwilio

Cafodd adnodd archwilio ei ddatblygu wedyn i nodi disgwyliadau clir i sicrhau bod Ymholiad Arferol yn cael ei gynnal yn gyson ac yn effeithiol, er mwyn gwella ymateb ac ansawdd y ddarpariaeth o ran gwasanaeth. Mae'r adnodd wedi'i rannu ag aelodau'r Rhwydwaith er mwyn monitro a sicrhau bod Ymholiad Arferol yn digwydd ar draws eu sefydliadau.

# Dysgu ym maes Diogelu

## Sesiwn sbotolau am chwilfrydedd proffesiynol

### Y cyd-destun



Chwilfrydedd proffesiynol yw pan fydd ymarferydd yn archwilio ac yn cymryd camau rhagweithiol i geisio deall beth sy'n digwydd mewn teulu, neu i unigolyn, yn hytrach na llunio rhagdybiaethau neu gymryd un ffynhonnell o wybodaeth a'i derbyn heb ei chwestiynu.



### Gweithgarwch y sesiwn

Bu ein sesiwn sbotolau am chwilfrydedd proffesiynol yn herio ymarferwyr i feddwl yn wahanol am ddiogelu, er mwyn helpu i drawsnewid bywydau plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg. Daeth ag ymarferwyr amlasiantaeth ynghyd ar draws Cymru i ddysgu mwy am beth y mae chwilfrydedd proffesiynol yn ei olygu, sut y gallant ei roi ar waith, a sut y gallant herio rhwystrau sy'n atal newid.

Roedd y sesiwn yn cynnwys senarios yn seiliedig ar ddrama a chyfraniadau gan arbenigwyr ym maes dysgu, academia a gwyddor ymddygiad.

**Clywodd y sawl a oedd yn bresennol fod angen iddynt wneud y canlynol i fod yn bobl sy'n dangos chwilfrydedd proffesiynol:**

- Deall sut yr ydym yn meddwl ac yn prosesu gwybodaeth
- Herio rhagdybiaethau
- Deall beth allai fod yn rhwystro chwilfrydedd proffesiynol
- Gwrando ar yr unigolyn a'i brofiadau mewn bywyd.

**Roeddwn yn dod yn fwyfwy ymwybodol y gallai rhan o'r jig-so fod ar goll.**

**Helpodd yr actorion i gadarnhau'r thema, a dangos sut mae defnyddio chwilfrydedd proffesiynol ac annog pobl eraill i'w ddefnyddio.**

**Y digwyddiad diogelu gorau, wedi'i gyflwyno yn y ffordd orau o bell ffordd, i fi ei fynychu erioed.**

## Digwyddiad sbotolau am ddiogelu oedolion sy'n wynebu risg

Cafodd y digwyddiad *'Fy Llais I, Fy Mywyd I: Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg'* ei gynnal yng ngogledd Cymru. Bu'r sesiwn yn canolbwyntio ar wrando ar brofiad go iawn oedolion sy'n ei chael yn anodd lleisio eu barn, ac ar ddeall eu profiad mewn bywyd.

Cafodd arbenigedd ei ddarparu gan academyddion ac arbenigwyr ym maes diogelu oedolion, eiriolaeth ac anableddau dysgu.

Defnyddiodd y digwyddiad ddull unigryw'n seiliedig ar ddrama o gyflwyno senarios go iawn pwerus er mwyn sicrhau effaith barhaol a newid go iawn. Llwyddwyd i ddysgu rhagor drwy wrando ar bobl a theuluoedd sydd wedi darganfod a chryfhau eu llais. Wrth iddynt rannu eu profiadau â'r sawl a oedd yn bresennol, gwnaethant amlygu pwysigrwydd dulliau holistaidd o ddiogelu, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

**Roedd y senarios a gyflwynwyd gan actorion yn bwerus iawn.**

**Roedd y ffocws ar brofiadau go iawn yn anodd yn emosiynol ond yn effeithiol dros ben.**

**Byddaf yn sicrhau bod yr adnoddau a rannwyd yn cael eu dosbarthu i fy nhîm ac i arweinwyr eraill.**

# Digwyddiad Goruchwyliaeth Adferol ar gyfer Meddygon a Enwir a Meddygon Dynodedig

## Y cyd-destun

Caiff pwysigrwydd sefydlu model Goruchwyliaeth Adferol ei amlinellu'n glir yn yr arweiniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef Cyfarwyddyd Goruchwylio Diogelu Cymru Gyfan.

Mae goruchwylio diogelu yn system hanfodol ar gyfer darparu ansawdd gofal ardderchog, a dylai ddigwydd yn rhan o ddiwylliant cefnogol a diwylliant o ddysgu. Mae'r model hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cynllunio olyniaeth yn digwydd gyda staff cydnerth. Roedd y digwyddiad hwn ar gyfer Meddygon a Enwir a Meddygon Dynodedig yn adeiladu ar y digwyddiad Goruchwyliaeth Adferol cyntaf a gynhaliwyd ar gyfer Penaethiaid Diogelu.

## Y digwyddiad

Bu digwyddiad deuddydd yng Nghwm Elan yn canolbwyntio ar oruchwyliaeth adferol i Feddygon a Enwir, a sut beth fyddai model priodol yn y dyfodol. Roedd yr Hyfforddiant ynghylch Diogelu Lefel 4 yn cynnwys anerchiadau gan siaradwyr cenedlaethol am ddiogelwch seicolegol, arweinyddiaeth dosturiol a lles i Arweinwyr Meddygol, ac roedd hefyd yn gyfle hanfodol i rwydweithio.

**Mae angen i ni fynd ati'n weithredol i ddatblygu goruchwyliaeth ym maes diogelu i feddygon er mwyn lleihau'r risg y gallent fod yn gorweithio.**

**Roedd cwrdd i ffwrdd o'r gweithle'n golygu bod modd creu cydberthnasau. Roedd hynny'n amhrisiadwy i fi fel un o aelodau mwyaf newydd y grŵp.**



# Adolygu gwaith dysgu a rennir am ddiogelu



## Y cyd-destun

Mae llawer o'r themâu a welir mewn Adolygiadau Ymarfer Oedolion, Adolygiadau Ymarfer Plant ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig yn rhai y gellir eu rhagweld ac yn rhai nad ydynt yn newid, ac maent yn cynnwys argymhellion sy'n benodol i'r sector iechyd. Mae hynny er gwaethaf ymdrechion sylweddol i sicrhau bod gwaith dysgu o adolygiadau'n cael ei rannu a'i roi ar waith.

Mae Llywodraeth y DU a'r Cyngor Ymchwil Feddygol yn awgrymu y dylai gwaith gwerthuso prosesau gael ei ddefnyddio mewn ymyriadau cymhleth er mwyn archwilio sut y mae prosesau'n gweithio i gynhyrchu canlyniadau. Felly, comisiynodd y Rhwydwaith archwiliad o'r modd y caiff gwaith dysgu am ddiogelu o adolygiadau ei rannu gan ddefnyddio'r fethodoleg hon.

## Yr adolygiad

Cafodd ymchwil gychwynnol ei chynnal i fethodoleg gwerthuso prosesau yng nghyswllt iechyd, addysg, hyfforddiant a newid ymddygiad. Cafodd holiadur ei rannu â'r Penaethiaid Diogelu ym Myrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru, a oedd yn ymwneud â sut y mae dysgu o adolygiadau'n digwydd yn eu sefydliad nhw, a oedd yn cynnwys cyflwyno polisïau, rhannu argymhellion, adnabod y gweithlu targed, a llywodraethiant.

## Dadansoddi

Wrth ddadansoddi'r data, gwelwyd nad oes unrhyw sefydliadau wedi datblygu polisi ffurfiol ynghylch rhannu gwersi a ddysgwyd o adolygiadau. Yn wir, nid oes dull cyson o weithredu ar draws Cymru ac mae'n ymddangos bod gan yr holl sefydliadau ddulliau dosbarthu sy'n wahanol i'w gilydd.

Dangosodd yr adolygiad hefyd yr holl waith y mae timau diogelu a sefydliadau iechyd ehangach yn ei wneud i sicrhau bod gwaith dysgu o adolygiadau'n cael ei ddefnyddio i lywio hyfforddiant ac ymarfer. Soniwyd am anawsterau niferus a oedd yn cynnwys y canlynol ymhlith eraill:

- Blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd yn achos sefydliadau a staff
- Llwyth gwaith staff
- Anawsterau recriwtio, sy'n arwain at brinder staff
- Llawer o staff yn gadael
- Anawsterau cael mynediad i TG

### Argymhelliad

**Yn y dyfodol, argymhellir bod y Rhwydwaith yn cynnal prosiect peilot Gwella Ansawdd mewn un Bwrdd Iechyd, er mwyn gwella'r modd y caiff gwaith dysgu o adolygiadau ei rannu. Pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau, gellid ystyried defnyddio'r gweithgaredd hwnnw ar draws holl sefydliadau iechyd GIG Cymru.**

# Ymarfer Rhanbarthol Arloesol



**Mae aelodau'r Rhwydwaith yn mynd ati'n rheolaidd i rannu ymarfer diogelu effeithiol er mwyn nodi beth sy'n gweithio yn eu hardal nhw, meithrin ymarfer effeithiol a chyfrannu at wella diogelu ar draws GIG Cymru.**

Mae datblygiadau arloesol mewn sefydliadau ac ym maes ymarfer amlasiantaeth yn ystod y cyfnod diwethaf fel a ganlyn.

# Gwella profiad plant o golposgopi

**Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cwblhau cam cyntaf rhaglen i wella'r holl brofiad a gaiff plant o fynychu apwyntiad i gael colposgopi.**

Archwiliad yw colposgopi, sy'n defnyddio microsgop i edrych yn fanwl ar geg y groth.

## Y cyd-destun

Mae plant sy'n cael colposgopi yn cael apwyntiad cyffredin fel claf allanol ar gyfer y driniaeth hon, waeth a yw'r driniaeth yn rhan o broses Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant neu'n gysylltiedig â dibenion clinigol eraill.

Er bod plant yn dod i gysylltiad â chlinigwyr profiadol sy'n gallu esbonio'r driniaeth, a'u bod yn gallu cael cymorth gan hebryngwr sydd wedi'i hyfforddi'n briodol, nodwyd nad oedd unrhyw gymorth arbenigol pwrpasol ar gael o ran diogelu.

## Cymorth arbenigol o ran diogelu

O ganlyniad, mae'r Tîm Diogelu Corfforaethol wedi cynnal prosiect peilot lle mae Nyrs Ddiogelu Arbenigol yn gallu cynorthwyo'r Clinig Colposgopi Pediatrig i ganolbwyntio ar lais y plentyn. Mae'r nyrs hefyd yn gallu cynnig cymorth pellach i'r plentyn, teulu a gofalwyr y plentyn, a gweithwyr proffesiynol eraill a allai fod yn cynorthwyo'r plentyn neu'n cadw cwmni i'r plentyn. Mae'r dull hwn o weithredu'n cynnig amser ychwanegol i bawb siarad cyn ac ar ôl y driniaeth, naill ai er mwyn gofyn beth allai'r driniaeth fod yn ei olygu'n glinigol neu er mwyn gofyn cwestiynau sy'n ymwneud â'r broses ddiogelu ehangach.

### Canlyniadau a gwerthuso

Mae'r camau cychwynnol i gysgodi'r broses a chadarnhau ffeithiau wedi gorffen. Bydd yr holl wybodaeth yn sail i brosiect tymor hwy i wella'r gwasanaeth, a fydd yn ystyried ffactorau amgylcheddol ac anghenion addysgol y sawl sy'n cynorthwyo'r clinig. Bydd hynny'n cynnwys rôl hebryngwr y plentyn a ph'un a oes angen i slotiau apwyntiadau fod yn hirach er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn ganolog i'r broses.

**Mae'r adborth cychwynnol gan blant, gofalwyr a staff clinigol wedi bod yn gadarnhaol, a bwriedir cynnal gwerthusiad ffurfiol yn ystod Chwarter 2 2025-2026.**

# Adnabod pryderon am ddiogelu yn gynnar

**Mae Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre yn darparu gwasanaethau oncoleg arbenigol, nad ydynt yn wasanaethau llawfeddygol, ar draws de-ddwyrain Cymru i boblogaeth o 1.6 miliwn.**

Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn rheoli Gwasanaeth Gwaed Cymru sy'n gyfrifol am gasglu, prosesu a dosbarthu gwaed a chynnyrch gwaed i bob ysbyty ledled Cymru ac sy'n gwasanaethu poblogaeth o 3.3 miliwn.

## Cynnydd yn nifer yr achosion diogelu yr adroddir yn eu cylch

Yn ystod y cyfnod diwethaf, mae mwy o ffocws ar hyfforddiant ynghylch diogelu ac ar ymwybyddiaeth o ddiogelu ymhlith y staff wedi arwain at gynnydd yn nifer yr achosion diogelu yr adroddir yn eu cylch, sy'n ymwneud â phlant y mae eu rhieni'n cael gofal gan Wasanaeth Canser Felindre. Mae hynny'n rhoi sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn 'gwneud i bob cyswllt gyfrif' ac yn gwarchod plant rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.

## Enghraifft o achos

**Cyfarfu claf, a oedd newydd gael ei hatgyfeirio, â nyrs oncoleg cyn dechrau cael triniaeth yn y Ganolfan Ganser. Yn ystod y sesiwn ymgynghori, dysgodd y nyrs fod y claf yn byw gyda'i phartner a babi a oedd yn sawl wythnos oed.**

Mynegodd y claf sawl pryder am ei phartner, a oedd yn cynnwys y ffaith bod ei phartner yn diystyru ei diagnosis o ganser, ei fod yn gweiddi ar y babi a'i fod unwaith wedi gadael y babi ar ei ben ei hun. Cafodd y nyrs ganiatâd gan y claf i rannu gwybodaeth â'r awdurdod lleol. Cafodd trefniadau eu gwneud hefyd i'r claf a'r babi aros gydag aelod agos o'r teulu. Cafodd adroddiad Plentyn sy'n Wynebu Risg ei gyflwyno a chafodd yr holl gofnodion iechyd perthnasol eu diweddaru.

Yn ystod apwyntiad dilynol, nododd oncolegydd fod y claf yn dal i fyw gyda'i phartner, a bod y partner yn dal i ryngweithio mewn modd negyddol â'r babi. Gan fod yr oncolegydd yn ymwybodol o bryderon blaenorol, cysylltodd â'r awdurdod lleol, ac arweiniodd hynny at gynnal cyfarfod strategaeth amddiffyn plant ar frys. Gwnaed penderfyniad unfrydol i gychwyn prosesau Amddiffyn Plant Adran 47 sy'n cynnwys asesiad amlasiantaeth er mwyn penderfynu ynghylch yr angen i weithredu er mwyn diogelu lles plentyn.

### Dysgu

Mae'r astudiaeth achos hon yn amlygu'r heriau y mae staff yr Ymddiriedolaeth yn eu hwynebu wrth geisio diogelu lles plant a chynorthwyo rhieni/gwarcheidwaid ar yr un pryd drwy eu diagnosis o ganser.

Mae'n dangos sut y mae adnabod pryderon posibl am ddiogelu yn gynnar yn ei gwneud yn bosibl ymyrryd yn gynnar er mwyn atal niwed posibl.

GIG CYMRU NHS WALES | Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services University NHS Trust

# Gwelliannau i ansawdd Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

**Yn ystod y cyfnod diwethaf, mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru wedi cymryd amryw fesurau i wella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.**

Mae'r Tîm Diogelu yn cydweithio â chydweithwyr yng Ngwasanaethau Ambiwlans Cymru ac mewn asiantaethau allanol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant ac oedolion sy'n wynebu risg o niwed. O fewn y sefydliad mae'r tîm yn ymateb i lawer iawn o ymholiadau gan gydweithwyr ynghylch diogelu, ac yn rhoi adborth er mwyn llywio ymarfer yn y dyfodol.

## Cydweithio ar draws sefydliadau

Mae Tîm Diogelu Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cydweithio'n agos â'r Tîm Diogelwch Cleifion ac yn cymryd rhan yn Fforwm Digwyddiadau Difrifol yr Ymddiriedolaeth er mwyn mynd i'r afael â materion diogelu a nodwyd mewn pryderon a digwyddiadau andwyol. Mae hynny'n sicrhau cydweithio gan randdeiliaid er mwyn cynorthwyo a gwarchod cydweithwyr, cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae'r tîm yn croesawu Dyletswydd Gonestrwydd yr Ymddiriedolaeth a'i phroses 'Unioni Pethau'. Ei nod yw darparu fframwaith cefnogol i staff ddysgu o ddigwyddiadau diogelu ac, felly, llywio camau i wella prosesau diogelu'n barhaus.




## Cydweithio cenedlaethol

Mae Cyfarwyddwr Diogelu Cynorthwyol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn cadeirio Grŵp Cynghori Gwasanaethau Ambiwlans y DU ar Ddiogelu. Mae'r grŵp yn hyrwyddo dull cyson o ddiogelu ar draws Gwasanaethau Ambiwlans y DU. Mae'n cysylltu, yn hybu ac yn arwain ymarfer diogelu ei ymarferwyr ar draws y DU ac yn darparu man lle gall Arweinwyr Diogelu Gwasanaethau Ambiwlans gael cymorth gan gymheiriaid. Mae'r ymgysylltu hwn ar lefel uchel yn helpu Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ymgorffori gwelliannau ar lefel y DU yn ymarfer yr Ymddiriedolaeth.

### Gwella sgiliau staff

Arweiniodd hyfforddiant sefydlu i staff rheng flaen yn y sefydliad at adborth cadarnhaol a oedd yn adlewyrchu lefelau gwell o hyder wrth ymarfer.

**Yn rhoi'r gallu i chi helpu eraill.**

**Amlinelliad da o sut i sylwi ar unigolion a allai fod yn dioddef camdriniaeth yn yr agwedd hon ar eu bywyd, a sut i'w helpu.**

# Hyfforddiant amlasiantaeth ynghylch diogelu

**Cafodd hyfforddiant amlasiantaeth ei ddatblygu a'i hwyluso gan y Meddyg a Enwir ar gyfer Diogelu, pediatregwyr diogelu a'r Nyrs Glinigol Arbenigol ar gyfer yr Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.**

## Y cynnwys

Cafodd yr hyfforddiant hwn ei gyflwyno mewn partneriaeth â chydweithwyr o'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, Heddlu De Cymru, yr awdurdod lleol, y trydydd sector a'r sector addysg. Roedd y cynnwys yn ymdrin â cham-drin plant yn rhywiol, camfanteisio ar blant, amheuon ynghylch camdriniaeth gorfforol, a salwch ffug.

## Llwyddiant yr hyfforddiant

Ar y diwrnod cyntaf o hyfforddiant ym mis Ebrill 2024, bu cynrychiolwyr o amryw ddisgyblaethau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ac o asiantaethau partner yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp ac yn gwrando ar gyflwyniadau gan arbenigwyr pwnc.

Mae manteision yr hyfforddiant yn cynnwys cyfathrebu gwell a mwy o ddealltwriaeth rhwng asiantaethau. Rhagwelir y bydd hynny'n arwain at ddull diogelu mwy cydweithredol a holistaidd, a fydd maes o law yn esgor ar ganlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

O ran y dyfodol, bwriedir cynnal sesiwn arall o hyfforddiant amlasiantaeth dan arweiniad y sector iechyd yn 2025.

**Ansawdd ardderchog y siaradwyr a'u gwybodaeth.**

**Rwy'n fwy ymwybodol o wasanaethau y tu allan i'm sefydliad i.**

**Rwy'n teimlo'n awr fy mod yn gallu esbonio Asesiad Meddygol Amddiffyn Plant ac archwiliad fforensig yn dilyn ymosodiad rhywiol.**

**Mae gen i fwy o hyder i reoli pryder am ddiogelu a'r gweithdrefnau sy'n dilyn.**



# Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig ym maes Iechyd

**Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi bod yn cydweithio i dreialu rôl Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig ym maes Iechyd yn un o ysbytai cyffredinol y Bwrdd Iechyd, a ariannwyd gan grant a ddarparwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.**

Mae Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig yn arbenigwr cymwys sy'n darparu gwasanaeth i ddioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o gael eu niweidio gan bartneriaid agos, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu.

## Rôl hanfodol

Mae Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig ym maes Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi chwarae rhan allweddol yng ngwaith y Bwrdd Iechyd i gyflawni'r strategaeth a'r glasbrint ynghylch Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cafodd 101 o ddioddefwyr gymorth, a oedd yn cynnwys 76 o atgyfeiriadau newydd.



## Adborth defnyddwyr gwasanaeth

Dyma ganlyniadau'r adborth a gafwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch sut yr oeddent yn teimlo cyn cael cymorth ac yna ar ddiwedd eu hymwneud â'r Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig ym maes Iechyd:

**Yn teimlo bod eu hiechyd a'u lles wedi gwella**

**39**

**Yn fwy gwybodus ac wedi'u grymuso yn fwy i allu ymdopi ag agweddau ar eu bywyd pob dydd**

**68**

**Yn teimlo'n fwy diogel**

**56**

## Dysgu a gwella

Mae gwaith dysgu o Adolygiadau Ymarfer Oedolion ac Adolygiadau Dynladdiad Domestig wedi cydnabod y cysylltiadau rhwng cam-drin domestig ac iechyd meddwl gwael. Mae hynny'n golygu bod yr Eiriolwr Annibynnol Trais Domestig ym maes Iechyd wedi llwyddo i gynorthwyo cleifion ac wedi hwyluso eu rhyddhau'n ddiogel o wardiau iechyd meddwl.

O ran y dyfodol, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi sicrhau cyllid gan Ofal Iechyd Seiliedig ar Werth i ymestyn y gwasanaeth i 2025-2026.

# Tîm Atal Trais

**Mae Tîm Atal Trais ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gweithio i leihau troseddu a'r niwed sy'n gysylltiedig â throseddu, drwy ddarparu cymorth priodol a chyfeirio pobl at wasanaethau priodol.**

Nod y Tîm yw torri'r cylch trais drwy ddefnyddio adegau pan fo addysgu'n bosibl yn ystod argyfwng i leihau, maes o law, nifer y bobl sy'n mynd i'r ysbyty yn dilyn ymosodiad.

## Dull amlasiantaeth o weithredu

Mae'r Tîm yn gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, yr heddlu ac asiantaethau yn y trydydd sector i sicrhau bod cleifion yn cael gofal ac yn cael y cymorth priodol ar gyfer eu hanghenion.

Mae pwysigrwydd y Tîm Atal Trais wedi'i gydnabod yn genedlaethol. Ynghyd â Thîm Atal Trais Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, enillodd y Tîm Wobr Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru 2024 ar gyfer Diogelu.

## Dan arweiniad nyrsys

Mae'r Tîm yn fenter a arweinir gan nyrsys, ac mae'n canolbwyntio ar gymorth i gleifion sydd wedi profi trais. Mae'r Tîm yn cymryd atgyfeiriadau'n ymwneud â chleifion sy'n mynd i'r ysbyty yn dilyn ymosodiad neu'n dilyn anaf a achoswyd gan arf megis cyllell. Er bod y Tîm wedi'i leoli yn Adran Achosion Brys yr ysbyty, mae hefyd yn cynorthwyo staff gydag atgyfeiriadau ar draws y Bwrdd Iechyd.

**Mae camau gweithredu'r Tîm yn cynnwys:**

- Rhoi gwybodaeth ac adnoddau i gleifion er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus.
- Sicrhau bod gweithdrefnau diogelu'n cael eu dilyn yn amserol.
- Cynorthwyo staff i roi gwybod i'r heddlu am bob anaf, os oes arf wedi'i ddefnyddio.
- Codi ymwybyddiaeth ar draws y Bwrdd Iechyd ac asiantaethau eraill er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o ddarpariaeth y Tîm.
- Sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r bygythiadau sy'n ymwneud ag anafiadau a achosir gan gyllyll, a sut y gallant eu hamddiffyn eu hunain yn ogystal ag amddiffyn eu cleifion.

**Ers i'r Tîm gael ei sefydlu, mae sawl achos risg uchel wedi cael cymorth, na fyddai wedi bod yn bosibl heb y gwasanaeth arbenigol hwn.**



# Mesurau Gwella Ansawdd

**Gwella Ansawdd yw conglfaen arferion diogelu, ac mae'n gofyn am drefniadau adrodd clir, strwythurau a thryloywder.**

Yn ystod y cyfnod diwethaf, mae Tîm Diogelu a Diogelu'r Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi mabwysiadu dull rhagweithiol o ddarparu sicrwydd ar draws gwasanaethau.

## Fframwaith Adrodd ynghylch Diogelu

Wrth i gwmpas a chymhlethdod yr agenda ddiogelu barhau i dyfu, mae'r angen am lywodraethiant trylwyr ac am fframwaith adrodd ynghylch ansawdd yn bwysicach yn awr nag erioed o'r blaen.

Mae Fframwaith Adrodd ynghylch Diogelu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn hybu cydymffurfiaeth o'r rheng flaen i lefel y bwrdd drwy sicrhau bod gwybodaeth, risgiau a digwyddiadau hollbwysig sy'n ymwneud â diogelu yn cael eu rhannu'n effeithiol ar draws pob lefel yn y sefydliad. Mae'n sefydlu proses drefnus sy'n sicrhau atebolrwydd, goruchwyliaeth, a sicrwydd bod cyfrifoldebau statudol yn cael eu cyflawni.

Mae archwiliadau rheolaidd, adolygiadau diogelu, a glynu wrth safonau ansawdd yn sicrhau bod mesurau diogelu nid yn unig yn cydymffurfio â'r gofynion ond hefyd yn effeithiol yn ymarferol. Mae'r fframwaith yn sicrhau bod trefniadau diogelu yn bodloni'r gofynion statudol o ran ymgysylltu'n wirioneddol ac o ran cyflwyno adroddiadau sy'n ymwneud â'r agenda genedlaethol, ranbarthol a lleol.

## Dadansoddi data

Mae cymorth Dadansoddwr Data pwrpasol sy'n rhan o'r Tîm Diogelu a Diogelu'r Cyhoedd ers 2018 yn llywio'r agenda strategol a gweithredol, a oedd yn dangos y gwelliant parhaus sydd wedi bod mewn ymarfer diogelu ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r adnodd arbenigol hwn yn hybu'r gwaith o ddatblygu ac adnabod platfformau TG ac yn casglu data sy'n arwain at wybodaeth am berfformiad o ran diogelu; adroddiadau ynghylch risgiau; a gwaith dadansoddi.

**Mae'r diweddariadau hyn mewn amser real yn hybu adrodd ymhellach o fewn y Bwrdd Iechyd a phartneriaid perthnasol. Mae'r sefydliad yn cymryd rhan yn llawn yn y gwaith ehangach sy'n digwydd ar Ddangosfyrddau Adrodd Cenedlaethol.**

# Arweiniad ynghylch mannau geni

## Y cyd-destun

Gwelwyd cynnydd trawiadol mewn atgyfeiriadau diogelu amhriodol oherwydd camddiagnosis o Felanosytosis Cynhwynol y Croen, sef man geni diniwed a chyffredin y credir yn aml ar gam ei fod yn glais. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth hwn wedi arwain at niwed y gellid bod wedi'i osgoi, sy'n cynnwys:

- Asesiadau Meddygol Amddiffyn Plant diangen a oedd yn cynnwys dau arolwg ysgerbydol dilyniannol, a'r pelydriad sy'n gysylltiedig â hynny
- Llawer o ofid emosiynol i deuluoedd
- Llai o ymddiriedaeth rhwng gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a theuluoedd.

Roedd yn amlwg bod diffyg adnabyddiaeth a dealltwriaeth o Felanosytosis Cynhwynol y Croen ymhlith gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ffactor allweddol a oedd yn cyfrannu i'r tuedd hwn, a oedd yn tanlinellu'r angen brys am addysg wedi'i thargedu ac am arweiniad clinigol clir.

## Pecyn hyfforddiant

Mewn ymateb i hynny, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi datblygu pecyn addysgu rhyngweithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn gwella ymwybyddiaeth, gwella hyder wrth ddiagnosio, a gwella dogfennau clinigol sy'n ymwneud â Melanosytosis Cynhwynol y Croen. Mae'r canlynol yn rhan o'r pecyn:

- Graddfeydd hyder cyn ac ar ôl sesiynau, sy'n galluogi dysgwyr i hunanasesu eu dealltwriaeth a thracio cynnydd
- Cwisiau "Spot the Diagnosis" ar sail lluniau, er mwyn atgyfnerthu dysgu gweledol ac amlygu'r prif wahaniaethau rhwng Melanosytosis Cynhwynol y Croen, cleisiau a namau eraill ar y croen
- Fideo 15 munud wedi'i animeiddio, sy'n ymdrin â phathoffisioleg ac epidemioleg Melanosytosis Cynhwynol y Croen a'r modd y mae'n ymddangos yn glinigol
- Arweiniad ynghylch arfer gorau wrth gofnodi, sy'n pwysleisio pwysigrwydd cofnodi marciau er mwyn gallu cyfeirio atynt yn y dyfodol
- Cynghorion cyfathrebu ymarferol ar gyfer esbonio Melanosytosis Cynhwynol y Croen i deuluoedd a chydweithwyr
- Cyfres wedi'i churadu o adnoddau ar gyfer dysgu parhaus.

Mae'r hyfforddiant wedi'i dreialu gyda bron 100 o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws disgyblaethau sy'n cynnwys Pediatreg Gyffredinol, Bydwreigiaeth, Gwasanaethau Ymwelwyr Iechyd, a Phediatreg Gymunedol. Mae'r adborth a gafwyd wedi bod yn gadarnhaol dros ben ac wedi arwain at fireinio'r pecyn drwy, er enghraifft, gymharu lluniau'n gliriach ochr yn ochr â'i gilydd a darparu adborth amser real i'r cwisiau.

## Y camau nesaf

Bydd fersiwn terfynol o'r pecyn addysgu'n cael ei lunio a bydd prosiect peilot cam 2 yn cael ei lansio drwy'r Fforymau Iechyd Plant, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd. Bydd y pecyn yn cael ei ddosbarthu'n ehangach wedyn, a bwriedir cynnal ail archwiliad o atgyfeiriadau diogelu er mwyn asesu'r effaith.

Ar yr un pryd, mae llwybr cefnogol wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cymunedol sy'n wynebu ansicrwydd ynghylch diagnosis. Bydd hynny'n ei gwneud yn bosibl cael ail farn yn brydlon gan gydweithwyr profiadol mewn modd diogel, trefnus a hygyrch.

> **Mae'r fideo yn wych! Mae'n bwnc gwirioneddol bwysig. Gwelais fam ifanc a oedd yn ofidus iawn ar ôl iddi gael ei chyhuddo'n amhriodol yn yr Adran Achosion Brys.**
>
> **Roeddwn wrth fy modd â'r fideo – mae'n ddefnyddiol iawn ac yn glir. Mae lefel y wybodaeth ar gyfer pob gweithiwr meddygol proffesiynol yn wych, oherwydd mae'n rhywbeth nad oeddem wedi cael addysg amdano o'r blaen.**



# Gwella Ansawdd ar gyfer achosion o hunanesgeulustod

## Y cyd-destun

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi bod yn codi ymwybyddiaeth o'r cynnydd yn nifer yr achosion lle mae oedolion yn eu hesgeuluso eu hunain neu'n wynebu risg o wneud hynny.

## Hyfforddiant

Mae Tîm Deddf Galluedd Meddyliol y sefydliad wedi bod yn allweddol o safbwynt hybu'r ymwybyddiaeth hon. Yn rhan o'r Wythnos Genedlaethol Diogelu darparodd y Tîm sesiwn hyfforddiant dros ginio, o'r enw 'Hunanesgeulustod a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol'. Cafodd y sesiwn ei chroesawu a'i chyflwyno i staff rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2024.

## Pecyn cymorth ac asesu

At hynny, mae'r sefydliad wedi bod wrthi'n hyrwyddo Pecyn Cymorth y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ynghylch Hunanesgeulustod i glinigwyr ar draws y Bwrdd Iechyd, gan ganolbwyntio'n benodol ar y meysydd sy'n gweld y nifer fwyaf o achosion o'r fath.

Yn ogystal, gobeithir y bydd y Ffurflen Asesu Galluedd Meddyliol newydd yn adnodd gwerthfawr a fydd yn galluogi clinigwyr i gofnodi gwybodaeth berthnasol a chynnal asesiad trylwyr o alluedd yr unigolyn os oes angen. Nod y ffurflen yw gwella gwaith cofnodi a'r graddau y cydymffurfir â Deddf Galluedd Meddyliol 2005, sy'n hanfodol mewn achosion cymhleth megis y rhai sy'n ymwneud ag oedolion agored i niwed sy'n wynebu risg o niwed oherwydd hunanesgeulustod.

## Yn y dyfodol

**Er mwyn adeiladu ar y gwaith hwn yn ystod y cyfnod nesaf, mae Tîm Diogelu Corfforaethol y sefydliad wrthi'n datblygu diwrnod astudio lefel 3 ynghylch hunanesgeulustod, a fydd yn cael ei lansio yn ystod hydref 2025.**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Hyfforddiant ynghylch chwilfrydedd proffesiynol

## Y cefndir

Mae chwilfrydedd proffesiynol yn sgìl hanfodol i ymarferwyr iechyd, sy'n eu galluogi i archwilio a deall cymhlethdodau amryw sefyllfaoedd yn fwy trylwyr. Bu Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cydweithio'n flaenorol â Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru i ddatblygu pecyn adnoddau ynghylch chwilfrydedd proffesiynol. I gyd-fynd â'r gwaith hwnnw, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno hyfforddiant pwrpasol ynghylch chwilfrydedd proffesiynol.

## Yr hyfforddiant


Mae sesiynau hyfforddiant wedi'u datblygu sy'n cael eu teilwra er mwyn ystyried y mân wahaniaethau penodol sy'n gysylltiedig â gwahanol wasanaethau. Mae pob sesiwn yn ymdrin yn gyson â themâu allweddol sy'n cynnwys: cam-drin ac esgeuluso plant ac oedolion; camfanteisio ar bobl; dyletswyddau dan y strategaeth atal; trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol; a phynciau eraill sy'n ymwneud â diogelu.

## Dull gweithredu'r pedwar cyngor

Yn ystod yr hyfforddiant, caiff y cyfranogwyr eu hannog i ymwneud â'r deunydd mewn modd trylwyr a meddylgar, gan feithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o'r materion dan sylw. Mae'r pedwar cyngor, sef GWYLIO, GWRANDO, GOFYN a GWIRIO, yn rhan annatod o senarios pob achos.

Caiff gofal iechyd ei ddarparu drwy lawer o wahanol ddulliau – wyneb yn wyneb, dros y ffôn, drwy gyswllt unwaith yn unig, neu drwy ofal tymor hwy. Mae'r gallu i addasu'r senario yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn parhau'n berthnasol i ystod o wasanaethau, ac yn annog y cyfranogwyr i feddwl y tu hwnt i'r claf sydd o'u blaen. Mae'r dull hwn o weithredu'n atgyfnerthu sylfaen chwilfrydedd proffesiynol a ddylai fod yn rhan annatod o ymarfer dyddiol pob ymarferydd.

I ategu'r hyfforddiant, mae poster wedi'i ddatblygu sy'n rhoi trosolwg o chwilfrydedd proffesiynol, yn rhoi arweiniad ar gyfer y pedwar cyngor ac yn cyfeirio pobl at adnoddau eraill.



GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Prosiect y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

**Un maes allweddol lle gwelwyd gwelliant yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yw ym maes adnabod y risgiau sy'n gysylltiedig ag amlder gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r angen i gydymffurfio â nhw.**

Arweiniodd hynny at archwiliad ac at ddatblygu cynllun gweithredu a fframwaith. Bydd y camau hynny'n sicrhau gweithlu diogel, sy'n allweddol o safbwynt diogelu'r cyhoedd yn ehangach.

## Y cyd-destun


Roedd y fenter gwella ansawdd yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau'n ymwneud ag aelod o staff Bwrdd Iechyd yn GIG Cymru. Roedd adolygiad ac adroddiad dilynol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir hwyluso adnewyddu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i staff y GIG ar draws Cymru fel rhan bwysig o'r gwaith o ddiogelu cleifion.

## Gweithredu

O ganlyniad, arweiniodd Grŵp Diogelu Iechyd Cyhoeddus Cymru y gwaith canlynol:

- Cynnal archwiliad o'r graddau y cydymffurfir â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a nododd sawl risg a chynllun gweithredu ar gyfer unioni
- Sicrhau bod amlder gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael ei nodi ar gofrestr risg y sefydliad.

Disclosure & Barring Service



Cafodd amryw fentrau eu symud yn eu blaen gyda chefnogaeth y Bwrdd er mwyn lliniaru'r risg gyfredol a sicrhau bod proses gadarn yn ei lle ar gyfer gwaith recriwtio diogel parhaus.

**Roedd y mentrau hynny'n cynnwys:**

- Datblygu polisi ynghylch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol
- Ymgysylltu â phartneriaid mewn Undebau Llafur, gan roi gwybod iddynt am y bwriad i ddatblygu a diweddaru polisi Iechyd Cyhoeddus Cymru ynghylch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn cael cefnogaeth i danysgrifio i Wasanaeth Diweddaru'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Gweithio i sicrhau bod lefelau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer pob aelod o staff gweithredol yn gywir, sy'n galluogi Iechyd Cyhoeddus Cymru i adnabod a llenwi bylchau. At hynny, bydd tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru yn hwyluso adroddiadau cywir ynghylch y graddau y cydymffurfir â gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.
- Caiff gwiriadau newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eu cynnal yng nghyswllt pob rôl gymwys er mwyn galluogi cydweithwyr i danysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru.

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Powys Teaching Health Board

# Ymgyrch Codwch y Ffôn

## Y cyd-destun

Dros flynyddoedd lawer, nodwyd bod Adolygiadau Ymarfer Oedolion a Phlant Byrddau Diogelu Rhanbarthol, Adolygiadau Diogelu Cenedlaethol ac Arolygiadau ar y Cyd yn amlygu themâu tebyg a meysydd tebyg ar gyfer gwella ar draws llawer o wasanaethau. Mae'r themâu hynny'n cynnwys ymarferwyr sy'n gweithio mewn modd ynysig ac sy'n methu â rhannu gwybodaeth amserol, berthnasol a chymesur, a diffyg chwilfrydedd proffesiynol.




## Yr ymgyrch

Mewn ymateb i hynny, ychwanegodd Tîm Diogelu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys at waith GIG Lloegr-Canolbarth Lloegr gan ddylunio poster electronig a oedd yn annog staff i gadw pethau'n syml, codi'r ffôn a sgwrsio â chydweithwyr ar draws Byrddau Iechyd yng Nghymru, ar draws ffiniau ac mewn asiantaethau partner.

I bwysleisio'r neges ymhellach, mae'r Tîm Diogelu yn achub ar bob cyfle i dynnu sylw at y neges ynghylch codi'r ffôn, gan gynnwys yn ystod goruchwyliaeth a hyfforddiant ynghylch diogelu a phan fyddant yn mynychu cyfarfodydd tîm Grwpiau Gwasanaethau.

# Ap Rheoli Diogelu yn mynd yn fyw

**Sylwodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys fod cynhyrchu metrigau diogelu'n gofyn am lawer o ymdrech gan bobl.**

Er mwyn mynd i'r afael â'r aneffeithlonrwydd hwnnw, cyflwynodd y Bwrdd Iechyd Ap Rheoli Diogelu er mwyn optimeiddio llif gwaith a gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol ar draws gweithgareddau allweddol a oedd yn cynnwys ansawdd diogelu, sicrwydd ac atebolrwydd.

**Mae'r manteision nodedig yn cynnwys:**

1. **Mwy o gapasiti:** Mae'r amser a arbedir yn golygu bod gan y tîm fwy o adnoddau ar gyfer gwaith cymhleth neu waith sy'n flaenoriaeth uchel.
2. **Mwy o gywirdeb:** Mae awtomeiddio'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd gwallau'n digwydd, sy'n gwella ansawdd a dibynadwyedd allbynnau.
3. **Mwy o ymatebolrwydd:** Mae amserau prosesu cyflymach yn arwain at ymatebion cyflymach i geisiadau mewnol ac allanol.

Mae'r effeithlonrwydd hwn yn cyfrannu maes o law at wella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu ac at sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Bydd gwaith monitro a mireinio parhaus yn sicrhau bod y mesurau hyn yn parhau'n effeithiol, a bydd yn cael ei wella er mwyn diwallu anghenion sy'n esblygu o fewn y sefydliad.



# Blaenoriaethau ar gyfer y Dyfodol

**Wrth edrych tua 2025/2026, bydd y Rhwydwaith yn parhau i adeiladu ar y sylfaen wybodaeth a'r cydberthnasau cadarn y mae wedi'u creu hyd yma, gan gydweithio er mwyn creu 'Cymru lle mae pawb yn ddiogel'.**

Canolbwyntir yn gadarn ar ansawdd a sicrwydd ym maes diogelu, ar ddysgu ac ar gryfhau partneriaethau. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cael ei ysgogi gan newidiadau mewn deddfwriaeth ac arweiniad statudol, sy'n digwydd ar hyn o bryd ac sydd ar ddod, gan ddysgu o'r Matrics Aeddfedrwydd Diogelu, adolygiadau diogelu diweddar, argymhellion ac adborth.

Caiff materion newydd cyffredin a fyddai'n elwa o arweinyddiaeth a chysondeb ar draws GIG Cymru eu hystyried drwy gydol y cyfnod cyflawni.

## Bydd y canlyniadau a gyflawnir yn ystod y cyfnod nesaf yn cynnwys:

- Egwyddorion amddiffyn plant cenedlaethol ar gyfer cynrychiolwyr GIG Cymru mewn cynadleddau diogelu
- Fframwaith Ansawdd a Diogelwch ar gyfer Diogelu
- Fframwaith Dysgu ar gyfer Diogelu
- Fframwaith Ansawdd, Sicrwydd ac Atebolrwydd ar gyfer Diogelu
- Datganiad Ansawdd a Metrigau Diogelu
- Cam 2 Arweiniad Cymru Gyfan ynghylch Beichiogrwydd ymhlith Plant dan 13 Oed
- Safon genedlaethol ar gyfer rheoli honiadau am ddiogelu yn erbyn y sawl a gyflogir gan y GIG
- Archwiliad, sy'n canolbwyntio ar wella, o farn Plant sy'n Derbyn Gofal am asesiadau iechyd
- Egwyddorion diogelu ynghylch defnyddio hebryngwyr
- Arweiniad ynghylch oedolion a phlant sydd heb eu danfon ac ynghylch ymweliadau lle na chafwyd mynediad
- Cyflawni gwaith cwmpasu er mwyn comisiynu diweddariad i'r Holiadur Risg sy'n ymwneud â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant
- Cyflwyno digwyddiadau Gwrando, Dysgu a Gwella amlasiantaeth ynghylch diogelu ar Lefel 3 y ddogfen ryng-golegol ac ar lefelau uwch na hynny.

